**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Grŵp Partneriaeth AoHNE Gŵyr

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Llun, 5 Gorffennaf 2021 am 2.00 pm**

**Yn Bresennol:** P Lloyd (Cadeirydd) Presided

**Y Cynghorwyr**

| | | |
|---|---|---|
| M C Child | P R Hood-Williams | L James |
| M Thomas | | |

**Aelodau'r Grŵp Llywio**

| | | |
|---|---|---|
| S Heard | G Howe | B Parry |
| P Thornton | | |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Paul Meller | Rheolwr Is-adran yr Amgylchedd Naturiol |
| Chris Lindley | Arweinydd Tîm AoHNE Gŵyr |
| Mike Scott | Swyddog AoHNE Gŵyr |
| Jeremy Parkhouse | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Y Cynghorydd(wyr): A H Stevens

Aelodau o'r Grŵp Llywio(wyr): R Button, J Chambers, J France a/ac D P Tucker

---

**1 Ethol Is-gadeirydd ar gyfer blwyddyn ddinesig 2021-2022.**

**Penderfynwyd** ethol y Cynghorydd L James yn Is-gadeirydd ar gyfer blwyddyn ddinesig 2021-2022.

**2 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, cyhoeddwyd y buddiannau canlynol: -

Datganodd y Cynghorwyr P R Hood-Williams, P Lloyd ac M Thomas gysylltiad personol â Chofnod Rhif 8 - Tirweddau Cynaliadwy Mannau Cynaliadwy - Dyfarnu Grant a Phrosiectau a Nodwyd.

**3 Cofnodion.**

**Penderfynwyd** cymeradwyo Cofnodion Cyfarfod y Grŵp Llywio a gynhaliwyd ar 15 Mawrth 2021 fel cofnod cywir.

**4 Crynodeb Ariannol. (Mike Scott)**

Cyflwynodd Mike Scott, Swyddog AoHNE Gŵyr, adroddiad ariannol cryno Panel y Gronfa Datblygu Cynaliadwy (CDC) 'er gwybodaeth'.

Amlygwyd bod Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau mai cyllideb y CDC ar gyfer 2021/22 fyddai £100,000. Roedd 14 o brosiectau wedi'u cymeradwyo hyd yn hyn, gydag £88,000 wedi'i neilltuo, ac un cais pellach yn cael ei ystyried ar hyn o bryd am £12,000.

Roedd ffigur y Cronfeydd Neilltuedig yn cynnwys ffi reoli DASA sef £7,500.55.

| | |
|---|---:|
| Cyfanswm yr arian sydd ar gael | £100,000 |
| Cronfeydd Neilltuedig | £88,000 |
| Cronfeydd heb eu Neilltuo | £12,000 |
| Ceisiadau ar waith | £12,000 |

Ychwanegwyd bod cais wedi'i gymeradwyo yng nghyfarfod y Panel Grantiau ar 28 Mehefin 2021, a oedd yn neilltuo cyllideb cynllun grant y CDC yn llawn ar gyfer 2021/22.

**5 Diwygiadau Awgrymedig i'r Cylch Gorchwyl. (Mike Scott)**

Cyflwynodd Swyddog AoHNE Gŵyr adroddiad a oedd yn amlinellu bod yr awdurdod, ar ôl cynnal trafodaethau â Llywodraeth Cymru, yn ystyried rhai newidiadau i'r Cylch Gorchwyl sy'n llywodraethu Panel Grantiau'r CDC.

Nod y newidiadau hyn oedd sicrhau bod aelodaeth y panel mewn sefyllfa amrywiol a da i weithredu'r Cynllun Grant Cynaliadwy yn lleol.

Llywodraeth Cymru - Darparwyd Argymhellion Allweddol ar gyfer Paneli CDC fel a ganlyn: -

1) Dylai Panel y CDC gynnwys demograffeg amrywiol o aelodau, gyda chynrychiolaeth o Bartneriaeth yr AoHNE lle bo angen.
2) Ni ddylai unrhyw drefniadau aelodaeth sy'n bodoli eisoes lle, er enghraifft, y mae'n ofynnol hefyd i aelod o banel CDC eistedd ar banel Partneriaeth AoHNE, gael eu diddymu. *Gall y gofyniad hwn oruwchreoli pwynt 3 sy'n cwmpasu'r tymor hwyaf os oes angen.*
3) Dylai aelodau'r panel wasanaethu am o leiaf 2 flynedd a heb fod yn fwy na 3 blynedd, gydag unrhyw aelodau newydd o'r panel yn cysgodi'r aelod sy'n ymadael am flwyddyn.
4) Dylai penodiad y panel fod drwy raglen dreigl a gynhelir gan staff yr AoHNE gyda dim mwy na thraean o'r panel yn cael ei ddisodli mewn unrhyw flwyddyn.
5) Gofynnir i aelodau'r panel ymgymryd â hyfforddiant sylfaenol i gael yr wybodaeth ddiweddaraf am nodau a dibenion y CDC a'r AoHNE.

Ychwanegwyd y byddai Grŵp Llywio AoHNE Gŵyr yn parhau i fod yn ganolog i lywodraethu Partneriaeth AoHNE, a oedd yn penodi i Grantiau'r CDC a Phaneli Apeliadau'r CDC.

Byddai'r diwygiadau arfaethedig i'r Cylch Gorchwyl yn cael eu hadrodd i gyfarfod nesaf trefnedig y Grŵp Llywio, cyn eu cyflwyno i'w cymeradwyo i'r Gweithgor Cyfansoddiad a'r cyngor.

**Penderfynwyd** nodi cynnwys yr adroddiad.

**6 Tirweddau Cynaliadwy, Lleoedd Cynaliadwy - Dyfarniad Grant a Phrosiectau a Nodwyd. (Chris Lindley)**

Cyflwynodd Chris Lindley, Arweinydd Tîm AoHNE Gŵyr, adroddiad a oedd yn nodi, mewn perthynas â'r trafodaethau a gafwyd yng nghyfarfod y Grŵp Llywio ym mis Mawrth 2021, fod Tîm AoHNE Gŵyr wedi datblygu cynigion prosiect gyda phartneriaid i'w hystyried/cymeradwyo gan Lywodraeth Cymru a'r Bartneriaeth Tirweddau Dynodedig Genedlaethol (NDLP).

Roedd Atodiad 1 yn darparu'r adroddiad i Gabinet Cyngor Abertawe ar 17 Mehefin 2021 a amlinellodd fanylion pellach ynghylch y grant a'r prosiectau arfaethedig.

Trafododd y Grŵp Llywio'r canlynol: -

- Cynigion a amlinellwyd ar gyfer Comin Fairwood, yn enwedig rheoli yn y dyfodol, datblygu prysgwydd o ganlyniad i danbori, annog y rheini sydd â hawliau pori i'w defnyddio a rhoi stoc ar y Comin;
- Gweithio mewn partneriaeth â Chominwyr Gŵyr i wella'r sefyllfa;
- Y posibilrwydd o gyflwyno systemau heb ffensys/coleri da byw i reoli symudiadau;
- Gwella mynediad y cyhoedd i Gomin Fairwood;
- Datblygu ardal ddiogel ar dir sy'n eiddo i Gyngor Abertawe ychydig oddi ar Gomin Fairwood i baratoi da byw cyn iddynt gael eu rhyddhau i'r Comin;
- Pryder ynghylch a fyddai'r cyllid ar gyfer Castell Pennard yn cael ei ddefnyddio i wella'r mynediad i'r traeth.

**Penderfynwyd:** -

1) Nodi cynnwys yr adroddiad;
2) Y bydd Arweinydd Tîm AoHNE Gŵyr yn trafod y mynediad i'r traeth wrth Gastell Pennard â Chlwb Golff Pennard.

**7 Cymdeithas Gwyr - Cynnig Prosiect Coetir. (Gordon Howe)**

Cyflwynodd Gordon Howe, Cymdeithas Gŵyr adroddiad a oedd yn gofyn am farn y Grŵp Llywio ar gynnig prosiect coetir.

Amlinellwyd y byddai Cymdeithas Gŵyr yn dathlu'r 75ain flwyddyn ers ei chyfarfod cyntaf, a'i chyfarfod ffurfio, yn 2023. Cynhaliwyd y Cyfarfod Sefydlu yn y Sefydliad Brenhinol ym mis Ionawr 1948.

Roedd y Gymdeithas yn bwriadu ystyried prosiect mewn partneriaeth ag eraill a fyddai'n arwain at effaith gadarnhaol a pharhaol ar yr AoHNE. Roedd un prosiect i'w

ystyried yn cynnwys plannu ardal sylweddol o goetir cymysg naill ai ar dir sydd wedi'i ddynodi neu ei brynu'n benodol at y diben hwnnw. Byddai cynllun, megis coetir newydd, yn annog bywyd gwyllt, yn lle coed a gollir drwy glefyd yn yr AoHNE, gan gysylltu â choetiroedd a gwarchodfeydd eraill yn ogystal â bod yn addysgol ac yn hygyrch i bawb drwy feicio a chludiant cyhoeddus.

Hoffai'r Gymdeithas ddenu, gydag eraill, symiau sylweddol o arian o ffynonellau'r Llywodraeth a ffynonellau preifat a fyddai'n gwneud hyn yn brosiect gwirioneddol werth chweil ac yn brosiect Cymreig Cenedlaethol.

Roedd y Grŵp Llywio'n gefnogol iawn o'r cynnig a chyfeiriodd Arweinydd Tîm AoHNE Gŵyr at fenter Llywodraeth Cymru i gyflwyno Coedwig Genedlaethol i Gymru na fyddai'n benodol i un ardal o dir.

Ychwanegodd Swyddog AoHNE Gŵyr y byddai Tîm Cadwraeth Natur Cyngor Abertawe yn hapus i gynorthwyo gyda'r cynnig. Ychwanegodd Paul Thornton, yr Ymddiriedolaeth Natur, fod ei sefydliad hefyd yn cefnogi'r cynnig.

**Penderfynwyd ar y canlynol:** -

1) Mae'r Grŵp Llywio yn cefnogi'r cynnig ar gyfer prosiect coetir;
2) Bydd Arweinydd Tîm AoHNE Gŵyr yn hwyluso trafodaethau pellach ac yn cael rhagor o wybodaeth am y fenter Coedwig Genedlaethol Cymru.

**8 Rheoli Ymylon Ffyrdd. (Chris Lindley/Priffyrdd)**

Cyflwynodd Arweinydd Tîm AoHNE Gŵyr adroddiad ynghylch Rheoli Ymylon Ffyrdd.

Tynnwyd sylw at y ffaith bod aelodau'r Grŵp Llywio wedi codi mater rheoli ymylon priffyrdd o fewn yr AoHNE o'r blaen a'u bod wedi gofyn i hyn gael ei drafod mewn cyfarfod o'r Grŵp Llywio.

Darparodd Atodiad 1 bapur a ystyriwyd gan Bwyllgor Datblygu Polisi'r Economi, yr Amgylchedd ac Isadeiledd Cyngor Abertawe ar 22 Ebrill 2021 yn ystyried y materion hyn.

Cyfeiriodd hefyd at adroddiad a ddarparwyd gan Philip Sterling, Cyngor Sir Dorset ynghylch effaith gadarnhaol cyfundrefnau torri newidiol.

Trafododd y Grŵp Llywio'r canlynol: -

- Effaith gadarnhaol mwy o blanhigion a blodau heb effeithio ar faterion mynediad/diogelwch ar y briffordd;
- Cyflwyno unrhyw newid mewn ffordd bwyllog gan gynnwys torri llai a chael gwared ar y deunyddiau gwastraff er mwyn lleihau ffrwythlondeb y pridd a lleihau twf yn y dyfodol;
- Cyfathrebu'n effeithiol â'r cyhoedd wrth gyflwyno newid, gan egluro'n glir pam yr oedd newid yn cael ei gyflwyno a mynd i'r afael â newidiadau fesul cymuned;
- Sut mae'n rhaid torri rhai ymylon oherwydd diogelwch ar y ffyrdd;

- Y cynnydd a wnaed gan yr awdurdod, gan gynnwys arian grant a gafwyd ar gyfer prynu cyfarpar;
- Sut roedd delio â'r materion fesul cymuned yn cael effaith gadarnhaol, er enghraifft, peidio â thorri'r gwrychoedd/ymylon i'r gorllewin o Old Walls, a oedd wedi cynyddu'r amrywiaeth ac wedi arwain at flodau/planhigion Prydeinig yn ailymddangos;
- Y gostyngiad cyffredinol mewn plannu blodau gwyllt gan yr awdurdod, gan gydnabod eu heffaith gadarnhaol ar gymunedau a'r angen hirdymor i gyflwyno dulliau amgen;
- Y cwynion a dderbyniwyd gan y cyhoedd ynghylch sut roedd gwrychoedd/ymylon heb eu torri'n gwthio traffig i ganol ffyrdd/yn effeithio ar lif traffig;
- Sut gall atebion naturiol ddarparu tawelu traffig seicolegol;
- Cydnabod nad yw un ateb yn addas i bawb a darparu cydbwysedd.

**Penderfynwyd** nodi cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau.

**9 Gwersylla Anffurfiol/Parcio Dros Nos. (Mike Scott)**

Darparodd Swyddog AoHNE Gŵyr adroddiad a oedd yn tynnu sylw at y problemau a achoswyd gan wersylla anffurfiol a pharcio dros nos.

Amlinellwyd bod Gŵyr, fel sawl rhan o'r DU, wedi gweld twf parhaus yn nifer yr ymwelwyr dros y blynyddoedd diwethaf a oedd wedi'i gynyddu gan effeithiau cyfyngiadau COVID-19 ar deithio tramor yn ystod 2020 a 2021. Roedd gan lawer o leoedd ar Benrhyn Gŵyr broblemau gyda dau fath penodol – gwersylla a chartrefi modur neu faniau gwersylla'n parcio dros nos.

Ychwanegwyd, yn y rhan fwyaf o achosion, nad presenoldeb y rheini dan sylw oedd y broblem fel arfer, ond yr ymddygiad gwrthgymdeithasol cysylltiedig (sŵn, difrod amgylcheddol, sbwriel, etc.). Weithiau roedd yn digwydd oherwydd na allai ymwelwyr ddod o hyd i safleoedd gwersylla swyddogol, fodd bynnag, yn amlach na pheidio roedd yn ddewis bwriadol.

Dywedwyd ymhellach fod y sefyllfa gyfreithiol yn gymhleth, ac yn gwahaniaethu rhwng lleoliad a math. Roedd y derminoleg a ddefnyddiwyd yn aml yn cynnwys: -

- Gwersylla Gwyllt – yn draddodiadol ysgafn, gan niferoedd bach a dim ond am ddwy neu dair noson mewn unrhyw un lle, fel arfer fel rhan o daith gerdded neu feicio. Yn dechnegol, fel trosedd sifil yn hytrach nag un gyfreithiol, roedd weithiau wedi cael ei oddef gan dirfeddianwyr, gan ei fod fel arfer yn ddi-sylw ac nid oedd yn gadael olion.
- Gwersylla Anffurfiol neu Ryddid – roedd yn derm a fabwysiadwyd yn eang ar gyfer parcio neu wersylla dros nos ar ochr y ffordd, naill ai mewn cerbydau neu bebyll. Mae'n gyfreithlon ar y briffordd ond gall fod yn drosedd sifil ar dir preifat.
- Gwersylla Brwnt - lle'r oedd pobl yn cyflawni troseddau eraill fel taflu sbwriel, peri niwed amgylcheddol (e.e. gyrru ar lystyfiant sensitif neu dorri coed ar gyfer tanau) neu achosi aflonyddwch neu niwsans i eraill. Gall hyn fod yn drosedd sifil, ond roedd yn fwy tebygol o fod yn un droseddol.

Prif fater pryderon oedd sut yr ymdriniwyd â'r sefyllfaoedd gwahanol hyn oherwydd mewn perthynas â throseddau sifil, y tirfeddiannwr sy'n gyfrifol. Byddai ychwanegu ymddygiad gwrthgymdeithasol yn denu cyfranogiad posib yr Heddlu, ond roedd yn aml yn flaenoriaeth isel ac yn aml yn cymryd llawer iawn o amser i'w ddatrys, gan ei fod fel arfer yn digwydd ar benwythnosau neu gyda'r nos.

Yn flaenorol, roedd Ceidwad yr AoHNE a'r Heddlu lleol yn cynnal patrolau rheolaidd ar y cyd mewn mannau problemus. Fodd bynnag, nid oedd gan y naill sefydliad na'r llall yr adnoddau i ymgymryd â'r gwaith ar hyn o bryd. Yn ddiweddar, roedd Tîm yr AoHNE, gan weithio gyda phartneriaid, wedi delio â gwersylla anffurfiol ar Gefn Bryn drwy gyfyngu ar fynediad i gerbydau ac efallai y bydd rhaid cymryd yr ymagwedd hon mewn mannau eraill. Anaml iawn y byddai'r mesurau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r problemau yn syml, yn gyflym neu'n rhad, ac yn aml byddai'r broblem yn symud i safle arall, gan effeithio ar ddefnyddwyr eraill.

Gallai effaith gronnol gwersylla anffurfiol, yn enwedig gwersylla brwnt, fod yn enfawr ar gymunedau lleol, a fyddai'n aml yn profi ymddygiad gwrthgymdeithasol mynych a difrod/taflu sbwriel. Roedd yn aml y tu hwnt i allu tirfeddianwyr unigol i fynd i'r afael â'r problemau a'r ffordd orau o fynd i'r afael â hyn oedd drwy ddull partneriaeth.

Trafododd y Grŵp Llywio'r canlynol: -

- Cyfryngau cymdeithasol yn amlygu safleoedd ar gyfer faniau gwersylla;
- Yr anawsterau wrth ddelio â'r problemau i dirfeddianwyr a diffyg cyfranogiad gan yr Heddlu oni bai fod tirfeddianwyr dan fygythiad;
- Y galw enfawr am y gweithgareddau hyn a'r math o berson a ddenwyd ganddynt, a oedd am osgoi talu am lety dros nos;
- Deuir ar draws problemau tebyg, ond ar raddfa lawer mwy, yn Ucheldiroedd yr Alban;
- Y problemau a gafwyd yn Southgate megis sbwriel a gwastraff dynol gan nad oes cyfleusterau toiled ar gael;
- Y diffyg parch a ddangosir i gefn gwlad gan y rheini sy'n ymgymryd â gweithgareddau o'r fath/mynd i rêfs bach a diffyg niferoedd yr Heddlu ar gyfer gorfodi;
- Newidiadau deddfwriaethol arfaethedig a allai newid y fath weithredoedd yn droseddau.

**Penderfynwyd** nodi cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau.

Daeth y cyfarfod I ben am 2.52 pm

**Chair**